

Eurwen Morris yn EGLWYS GLAN RHYD IDWAL

SAIF yr hen eglwys hon ym mhen uchaf Dyffryn Nant Ffrancon, ac wrth edrych i lawr ohoni, ceir golygfa odidog o'r dyffryn islaw. Bwm yn sgwrsio â sawl cymeriad, ymadawedig erbyn hyn, a diddorol oedd clywed eu hatgofion ohoni.

Roedd dau bwrpas i'r adeilad, sef i wasanaethu yn Eglwys Loegr ar y Sul ac yn ysgol ddyddiol drwy'r wythnos. Ficer Eglwys St Ann's, Mynydd Llandegai, sef y Parch. William Morgan (Morgans, fel y'i gelwid) oedd yn gyfrifol am yr un gwasanaeth a gynhaliwyd yng Nglan Rhyd Idwal ar y Sul. Teithiai mewn cerbyd bychan, a elwid gan fechgyn y fro, yn 'cat and a half', oherwydd y swm a wnaï.

Yr Ysgol

Gelwid hi ar lafar yn Ysgol Bach Penllyn, a hynny, mae'n debyg, oherwydd ei safle ym mhen Llyn Ogwen, a hefyd yn Ysgol Nant y Benglog. Fel ffermydd a thai yr ardal, eglwys arall o eiddo Stâd y Penrhyn oedd. Adeiladwyd hi yn 1853 gan Arglwydd Penrhyn, ac fel pob ysgol eglwys y cyfnod, dechreuïd â Gwasanaeth Crefyddol, a'r Credo yn rhan hanfodol ohono. Cynhaliwyd y cwbl yn Saesneg, adroddwyd y Credo, darllenwyd Salm, ac yna'r Colect am y dydd. Byddai hyn yn creu diflastod i'r disgyblion, a byddent yn sbecian yn slei rhwng eu bysedd i edrych a oedd yr ysgolfeistr wedi gorffen traethu. Yn wir, Saesneg oedd y cyfrwng iaith yn gyfangwbl. Ceisiwyd argyhoeddi'r Cymro na allai fod yn ddiwylliedig tra'n meddiannu'r iaith Gymraeg, y felltith honno a lesteiriodd ddatblygiad addysgol.

Richard Hughes, Pen Allt Gas, Bethesda, oedd yr Ysgolfeistr, gyda Mrs. Jones, Penllyn, yn athrawes gynorthwyol. Teithiai ar ei feic i fyny'r dyffryn ymhob tywydd, a dywedir iddo fod dipyn o gampwr ar y beic. Bu'n gydwybodol iawn, hefyd, yn cynnal ysgol nos i oedolion anllhythrennog a bu bri a llywyddiant gwerth chweil ar y fenter honno. Dywedir i ŵr o Nant y Benglog wirioni'n llwyr pan ddysgodd ddarllen ac ysgrifennu. Gwironodd cymaint nes iddo ddechrau ysgrifennu ar ddrysau ei dŷ! Cyn dyddiau'r ysgolfeistr, cedwid yr ysgol gan ddwy Miss Jones, dwy chwaer o Fethesda.

Roedd un pen i'r adeilad wedi ei gau gan lenni mocthus, cochion, trwm. Tu ôl i'r lenni yr oedd yr allor, a rhybuddiai'r sgwl nad oedd y plant i fynd yn agos ati. Bob bore, agorwyd y lenni i ddatguddio'r allor ar gyfer y gwasanaeth. Yr oedd llen drom arall ar y drws i gadw'r oerni draw, ond byddai pwrpas arall iddi hefyd. Tu ôl i hon yr arferai unrhyw blentyn a oedd wedi cam ymddwyn dreulio amser. Yn ymyl y drws yr oedd bedyddfaen o farmor caled o gerrig 'Y Foty'. Mae'n debyg mai Foty Coed yr Ynys sydd o dan sylw yma ar yr ochr chwith i Lyn Ogwen wrth deithio i gyfeiriad Capel Curig.

Y Disgyblion

Rhwng deg a phymtheg o blant o ffermdai a thai ar wasgar a fynychai'r ysgol, fel Glan Llugwy, Pentre, Tŷ Capel Ysgoldy Bach (neu Exeter Hall fel y'i gelwid yn gellweirus) a Bodesi (tŷ haf a chuddfan y Frenhines Buddug (Boadicea)) ac hefyd, o Dy'n y Maes. Cerdded i'r ysgol ar bob tywydd wnaï'r plant, a phob plentyn yn cario llechen mewn ffrâm bren ar gyfer ysgrifennu, tun bwyd a phiseraid o lefrith neu laeth i'w yfed. Os oeddynt wedi gwlychu, arferent sefyll mewn cylch o flaen tanllwyth o dân, gan fygu fel 'stemar, ond gwell hynny nag



Eglwys Glan Rhyd Idwal.

eistedd drwy'r dydd mewn dillad gwlyb.

Dechreuai rhai ar eu taith am hanner awr wedi wyth i sicrhau bod yno mewn pryd. Dechreuïd am ddeg y bore hyd hanner awr wedi tri y prynhawn, gydag awr o egwyl dros ginio. Athro da oedd y boneddwr Hughes, a ddysgai foesoldeb gyda chariad ac amynedd diflino. Ni chredid mewn defnyddio'r gansen, gwell oedd ganddo anfon plentyn tu ôl i'r llen am sbel a dweud ei fod wedi ei siomi ynddo, a byddai hyn yn fwy effeithiol o lawer. Daeth â chrefydd a storiâu beiblaidd yn berthnasol i fywyd y plentyn. Dysgodd am fyd natur, blodau gwylltion, pysgod y llyn, ac yn y blaen. Casglodd sawl carreg yn amlygu ffosilau o redyn neu gregyn, ac felly, gallai brofi i'r plant fod y môr wedi bod dros yr ardal flynyddoedd maith yn ôl. Soniodd am y Dilyw yng nghyd-destun hynny, a ble gwell i drafod 'Y Creu' nag ynghanol prydferthwch Nant Ffrancon.

Tywydd Garw

Er ei olygfeydd dihafal, mae'r dyffryn yn cael ei ran o dywydd garw. Dywedir i foneddiges ddweud ar y radio, ar ôl profi un o'r stormydd mynych, ei bod bron yn 'airborne', gan wynt mor gryf. Cafodd gwaig arall, a fu'n forwyn yn y dyffryn, ei chodi i fyny, fel wrth barasiwt.

Cofia'r diweddar Mrs. Elizabeth Roberts (Pritchard, gynt o Dy'n-y-maes) am yr oerfel a'r lluwchio mawr, ac weithiau'n cerdded gartref o'r ysgol tu ôl i frēc a cheffyl er mwyn cael rhywfaint o gysgod. Er hynny, roedd ei dwylo wedi rhewi a'r grepach wedi gafael yn ei bysedd nes gwneud i'w dagrau redeg. Ar y llaw arall, roedd ganddi atgofion melys am ddyddiau ysgol. Diwrnod pwysica'r flwyddyn oedd cael mynd ar wibdaith i ymweld â Chastell Penrhyn, Caernarfon a dyffryn Llanberis, ym mrêc fawr Wil Sion Felin, gyda dau geffyl yn ei thynnu.

Ysgolfeistr dihafal

Gair da oedd ganddi i'r ysgolfeistr fel un trwyadl, cydwybodol ac yn fodern iawn ei agwedd. Cadwai eu diddordebau'n fyw, hyd yn oed yn ystod yr awr ginio, drwy fynd â'r plant mewn cwch ar y llyn ambell dro. 'Nature Study' oedd y wers honno. Oddeutu unwaith y mis âi a hwy i fyny i Gwm Idwal i gasglu cerrig a phlanhigion ar gyfer y 'Bwrdd Natur'. Dro arall, chwaraeai'r plant ym mhylau llonydd Afon Idwal, gan ymgolli yn y mwyniant, hyd nes clywed cloch yr ysgol yn canu ac ofer fyddai'r

rhuthro ffwdanus i geisio cyrraedd yn ôl mewn pryd.

Yr unig gwyn yn ei erbyn oedd na fyddai'n fodlon i'r plant ddefnyddio'r Gymraeg. Fel y crybwyllais eisoes, Saesneg oedd y cyfrwng dysgu a'r Gymraeg yn waharddedig, hyd yn oed ar y buarth, a gorfu iddynt siarad eu mamiaith yn aml ar y slei.

O sylweddoli'r cefndir a Côd Diwygiedig 1861, dibynnai grant ysgolion a chyflogau athrawon ar ganlyniadau arholiadau a chyfartaledd presenoldeb. Meddwl am ei 'fara meny' oedd y sgwl, mae'n debyg. Roedd y gyfundrefn ei hun yn ennyn twyll, ac yn aml gwelid enwau rhai absennol yn bresennol ar y Cofrestr. Ysgrifennodd Arolygwr mewn un ysgol i blentyn ddarllen yn dra hyddysg, er bod ei lyfr â'i ben i lawr. Yn gyffredinol, profwyd pob plentyn mewn darllen, ysgrifennu a rhifyddig, a naturiol felly fyddai i'r athro ganolbwyntio ar y medrau sylfaenol hyn. Yn anffodus i'r Cymro, Saesneg oedd y cyfrwng, ac fel canlyniad, daeth yr 'iaith fain' yn 'iaith fara meny', fel petae.

Diwedd Cyfnod

Pan gododd ymneilltuaeth ei ben a dechrau meddwl am addysg neilltuol ar droed, bu cais gan y Pwyllgor Addysg i brynu'r adeilad (oddeutu 1923), ond ofer fu'r ymgais. Syrthiodd rhifau'r disgyblion yn isel a chofia Mrs. Elizabeth Roberts iddi fod yn rhan o griw hynod fychan pan oedd yr ysgol ar fin cau. Wedi cau, parhawyd â'r gwasanaethau eglwysig, ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd hi fel ystorfa i gadw bwyd.

Yna, oddeutu'r saithdegau cynnar, gosodwyd hi i'r Gymdeithas Canolfan Ieuencid. Heddiw mae'n fan gorffwys i'r blinedig wedi eu gweithgareddau allanol, ac mae ei phwrpas yn dra gwahanol.

Cydnabyddiaeth

Atgofion y diweddar Mrs Elizabeth Roberts, Adwy'r Nant, Bethesda a Mrs. Margaret Roberts, Glan Llugwy, Capel Curig.

C. H. Dodd, *A History of Caernarvonshire 1284-1900*.

Ieuan D. Thomas, *Addysg yng Nghymru yn y 19g* (Cyfres Llygad y Ffynnon).

Inspecting and the Inspectorate, John Blackie - Llundain (Routledge a Kegan Paul).

E. L. Edmonds, *The School Inspector*, Llundain, Routledge a Kegan Paul.